Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Deall Bwriadau Busnes Ffermwyr Cig Eidion a Chig Oen yng Nghymru – cam *2*


**Ym mis Medi 2022, cynhaliodd HCC gam cyntaf Arolwg Bwriadau Ffermwyr i ddeall sut roedd ffermwyr ledled Cymru yn ymateb i'r heriau a oedd yn deillio o gostau mewnbwn uwch. Cynhaliodd HCC yr arolwg am yr eildro ym mis Medi 2023 er mwyn archwilio i effaith yr amrywiadau mewn costau mewnbwn amaethyddol.**

## *CEFNDIR*

- Mae Mynegai Prisiau Amaethyddol (API) y DG yn awgrymu bod costau cyffredinol mewnbynnau amaethyddol **wedi gostwng 1.5%** yn ystod y 12 mis hyd at Awst 2023
- Er gwaethaf gostyngiadau diweddar, fodd bynnag, mae costau mewnbwn ac allbwn yn parhau i fod gryn dipyn **yn uwch na'r lefelau hanesyddol**
- Mae hyn yn awgrymu bod cynhyrchwyr cig eidion a chig oen yn parhau i brofi amgylchedd gweithredu heriol, a allai gael **effaith sylweddol ar broffidioldeb**
- Derbyniodd HCC **266 o ymatebion arolwg cymwys** yn ystod cam 2
- Edrychodd y dadansoddiad ar fwriadau o ran cyfradd stocio, y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau busnes, a'r defnydd o fewnbynnau amaethyddol.


## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Cynhyrchwyr Cig Oen

- Roedd llai o gynhyrchwyr yn bwriadu gostwng eu cyfraddau stocio o gymharu â Cham 1 yr arolwg – nid oedd gan 50% unrhyw gynlluniau i newid cyfraddau stocio, a dim ond 25% oedd yn bwriadu lleihau (o gymharu â 43% yng ngham 1)
- Mae costau mewnbwn amaethyddol yn cael llai o effaith ar fwriadau i leihau cyfraddau stocio – gydag ansicrwydd ynghylch newidiadau i gynlluniau cymorth ffermio yn cael mwy o effaith
- Roedd cynhyrchwyr cig oen yn bwriadu gostwng cyfraddau stocio trwy gynyddu cyfraddau difa, a chael llai o ddefaid cyfnewid
- Dywedodd y rhai sy'n bwriadu cynyddu cyfraddau stocio taw optimistiaeth yn y farchnad sy'n ysgogi'r newid hwn.



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Cynhyrchwyr Cig Eidion

- Awgrymodd 47% o gynhyrchwyr nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i newid niferoedd da byw cig eidion dros y 6-12 mis nesaf
- Roedd 35% yn bwriadu lleihau niferoedd rhywfaint – gostyngiad bychan o'i gymharu â'r 47% yn ystod Cam 1
- Roedd costau mewnbwn amaethyddol uwch yn ffactor arwyddocaol y tu ôl i'r bwriad i leihau niferoedd ar gyfer 71% o ymatebwyr – ynghyd ag ansicrwydd ynghylch newidiadau i gynlluniau cymorth ffermio
- Roedd cynhyrchwyr cig eidion yn fwy tebygol o gadw llai o anifeiliaid o gymharu â chynhyrchwyr Cig Oen
- Dywedodd cyfanswm o 18% o gynhyrchwyr eu bod yn bwriadu cynyddu cyfraddau stocio, o gymharu â 13% yn ystod Cam 1.




## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Mewnbynnau Amaethyddol

- Mae'r gostyngiadau yn y defnydd o borthiant, porfwyd a gwrtaith ychydig yn llai o gymharu â Cham 1
- Dwysfwydydd: Roedd 46% yn bwriadu defnydd io llai dros y 12 mis nesaf
- Porthiant: mae ymatebion yn awgrymu defnydd llawer mwy cyson o borthiant yn y flwyddyn i ddod
- Gwrtaith nitrogen wedi'i weithgynhyrchu: dywedodd llai o ymatebwyr eu bod wedi gostwng y defnydd o wrtaith dros y 12 mis blaenorol (efallai am fod costau wedi gostwng), gyda 36% yn bwriadu defnyddio llai yn ystod y flwyddyn i ddod.

### *CANLYNIADAU*

- Mae mwyafrif y cynhyrchwyr yn bwriadu **peidio â gwneud unrhyw newidiadau** i'w cyfraddau stocio yn ystod y 6-12 mis nesaf - cyfran uwch o gymharu â Cham 1 yr arolwg
- Mae effeithiau posibl y bwriadau ar gyfraddau stocio cyffredinol yn y sector cig eidion yn awgrymu y byddai'r gostyngiad yn nifer y gwartheg cig eidion yng Nghymru **yn parhau**
- Mae'r canlyniadau ar gyfer y sector cig oen, fodd bynnag, yn awgrymu y byddai niferoedd y defaid **yn cynyddu rhywfaint**
- O ganlyniad, mae'n bosibl y byddwn yn profi **cyfraddau difa uwch a chyfraddau cadw is** o fewn buchesi cig eidion Cymru, ond **cyfraddau cadw ychydig yn uwch** o fewn y ddiadell Gymreig
- Byddai'r camau hyn yn effeithio ar y cyflenwad o gig coch i'r farchnad *(yn y tymor byr ac yn y tymor hwy)*
- Dim ond mân wahaniaethau a nodwyd rhwng math o fferm, maint a daearyddiaeth
- Cyfeiriodd llawer at ansicrwydd o fewn y diwydiant fel eu rhesymau dros grebachu – yn awgrymu bod angen **mwy o eglurder** i ffermwyr yng Nghymru.

***Cyfyngiadau** - Mae cyfyngiadau o ran y dadansoddiad hwn gan fod yr arolwg yn dibynnu ar wybodaeth hunan-adroddedig am fwriadau'r gorffennol a'r dyfodol. Dylid deall bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad, yn hytrach na disgrifiad pendant, o gamau gweithredu a bwriadau cynhyrchwyr cig eidion a chig oen yng Nghymru.*